

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Moeseg a Safonau
Dyddiad y cyfarfod:	16 Hydref 2022
Lleoliad:	Cyfarfod Hybrid
Teitl:	Y diweddaraf am broses recriwtio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r penodiadau i Is-bwyllgor Safonau Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru

Pwrpas yr adroddiad: Er gwybodaeth

1)Recriwtio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Penodwyd y Cadeirydd cyfredol, Mrs Caroline White yn wreiddiol ar 30/7/2013 ac fe'i hailbenodwyd ar 30/7/2019. Bydd tymor ei swydd yn dod i ben ar 29/7/2023. Nid yw Mrs Caroline White bellach yn medru cael ei hailbenodi.

O ganlyniad bydd angen recriwtio Aelod Annibynnol newydd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau er mwyn cynnal cyfansoddiad y Pwyllgor, fel y'i nodwyd yn y Cyfansoddiad ac fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch cynllunio olyniaeth o ran aelodau lleyg yng nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 25 Mai 2022. Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD i argymhell i'r Cyngor y dylai gymeradwyo'r canlynol:

- (i) disgrifiad y rôl, y manyleb personol a'r meini prawf (fel yr amlinellir yn yr Atodiad)
- (ii) Aelodaeth y Panel Dethol fel a ganlyn:
 - Cadeirydd y Cyngor (yn absenoldeb yr Is-gadeirydd);
 - Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Panel (enwebwyd gan y Swyddog Monitro)
 - Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau (neu unrhyw aelodau annibynnol a enwebwyd gan y Swyddog Monitro fel y bo angen)
 - Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned a enwebwyd gan Un Llais Cymru; a
- (iii) newid y teitl 'disgrifiad swydd' yn yr Atodiad gan roi 'disgrifiad o'r rôl' yn lle hynny.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ar 20 Hydref 2022. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor, bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd:

1 Tachwedd 2022 – cyhoeddi'r hysbyseb ar wefan y Cyngor ac yn y papurau newydd (bydd y dyddiad cau ymhen 3 wythnos)
Rhagfyr 2022 – creu rhestr fer
Ionawr 2023 – cynnal cyfweiliadau

Mae'r Athro John Williams wedi cadarnhau ei fod ar gael i fod yn aelod annibynnol / lleyg o'r panel. Cysylltwyd ag Un Llais Cymru i ofyn iddynt enwebu cynrychiolydd ar gyfer y panel.

2)Recriwtio cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

Ar 8 Gorffennaf 2022, bu i'r Cyngor gymeradwyo penodi'r canlynol fel cynrychiolwyr y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau:

- Y Cynghorydd Delyth James
- Y Cynghorydd Jan Culley

3)Penodiadau i Is-bwyllgor Safonau Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru

Ar 8 Gorffennaf 2022, bu i'r Cyngor gymeradwyo penodi'r canlynol i Is-bwyllgor Safonau Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru:

- 1 Aelod o Bwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion:
- Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans.

Aelodau Annibynnol:

- Caryl Davies
- Carol Edwards

Bydd y Cyngor yn penodi ail Gyngorydd ar 20 Hydref 2022.

Argymhelliad: Nodi'r sefyllfa bresennol

Rheswm dros y penderfyniad: Er gwybodaeth

Swyddog Adrodd: Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau

Dyddiad: 23 Medi 2022